# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2016

Amser: 09.00 - 09.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3605

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Neil McEvoy AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Gareth Bennett AC<br>Mike Hedges AC (Cadeirydd) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jessica England (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 126KB) Gweld fel HTML (129KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd - gydag Ymatebion Gweinidogol

### 2.1 P-04-685 Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru - Mae Angen Model Taliad Rhanbarthol Tecach

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd y dylid ei chau, o gofio bod yr ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd yn mynd i'r afael â'r materion y mae'n eu codi.

### 2.2 P-04-686 Dylid Gosod System Goleuadau Traffig yng Nghylchfan Cross Hands

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

### 2.3 P-04-687 Adolygiad o Bysgota Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn i'r deisebydd a oes ganddo unrhyw sylwadau mewn ymateb i lythyr y Gweinidog. Bydd y Pwyllgor yn trafod y ddeiseb eto yn y cyfarfod nesaf.

## 3 Deisebau Newydd Eraill

### 3.1 P-05-689 Gwelliannau i'r Ddarpariaeth Reilffyrdd yng Nghydweli Sir Gaerfyrddin

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.2 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan - Y Fenni

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.3 P-05-691 Bargen Deg ar gyfer Ralïo mewn Coedwigoedd yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.4 P-05-692 Adeiladu Cofeb Mamieithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.5 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.6 P-05-694 Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.7 P-05-695 Cyflwyno Addysg Iechyd Meddwl Orfodol mewn Ysgolion Uwchradd

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.8 P-05-654 Gwrthwynebu'r Cynigion Presennol o ran Dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer Llamhidyddion

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.9 P-05-697 45,000 o Resymau Pam bod ar Gymru Angen Strategaeth ar Ddementia

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. O gofio bod y ddeiseb hon wedi cael ei thrafod am y tro cyntaf dros bedair blynedd yn ôl a bod y camau nesaf yn ddibynnol ar benderfyniadau gweithredol y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.2 P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb. O gofio bod y ddeiseb wedi cael ei thrafod am y tro cyntaf dros dair blynedd yn ôl ac nid yw'n debygol y bydd y polisi'n newid yn y dyfodol agos, cytunodd y Pwyllgor y dylid ei chau.

### 4.3 P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb. O gofio bod y Gweinidog wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r arfer o saethu gwyddau talcen-wen yng Nghymru ar hyn o bryd, cytunodd y Pwyllgor y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.4 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i:

- ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect ymchwil ar y cyd â Chymdeithas Cadwraeth y Môr a Phrifysgol Abertawe i ymchwilio i'r mater hwn a materion eraill a gomisiynwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd; ac i
- bwysleisio pwysigrwydd casglu'r wybodaeth berthnasol i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i fynd i'r afael â'r broblem.

### 4.5 P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a chytunwyd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, cytunwyd y dylid gofyn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig nodi'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Deisebau wrth iddo drafod ei flaenraglen waith.

### 4.6 P-04-440 Dywedwch 'Na' i werthu asedau Ysbyty Bronllys

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a chytunodd i gau'r ddeiseb oherwydd bod Aelodau'n teimlo y byddai'r mater bellach yn cael ei ddwyn ymlaen orau ar lefel fwy lleol.

### 4.7 P-04-553 Ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thechnolegau diwifr a ffonau symudol yng Nghymru, gan gynnwys yr holl ysgolion

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ysgrifennu at Ganolfan Ymbelydredd, Cemegion a Pheryglon Amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Lloegr i ofyn pa gamau y maent wedi'u cymryd ar ôl cael gwybodaeth a anfonwyd atynt gan y Gweinidog ar gais y Pwyllgor blaenorol.

### 4.8 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y ddeiseb.

### 4.9 P-04-663 Bwyd yn Ysbytai Cymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, a hefyd gan Fyrddau Iechyd Lleol, a chytunodd i anfon y wybodaeth sydd wedi dod i law hyd yn hyn at yr Archwilydd Cyffredinol a gofyn iddo am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd ynghylch darparu bwyd yn ysbytai Cymru.

### 4.10 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (CA125)

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd a'r deisebydd, a chytunodd i wneud darn byr o waith ar y materion a godwyd ac i ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r deisebwr ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn nhymor yr hydref.

### 4.11 P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. O ystyried y safbwynt a nodwyd yn ymateb y Gweinidog a'r ffaith bod y ddeiseb wedi bod o dan ystyriaeth ers dros dair blynedd, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.12 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. O gofio bod y Gweinidog wedi nodi na fydd y terfyn cyflymder yn cael ei ostwng ar hyn o bryd, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.13 P-04-539 Achub Cyfnewidfa Lo Caerdydd

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a hefyd gan Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd.

### 4.14 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.

### 4.15 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Archwiliad Cam 4 a sut y bydd barn y deisebwyr yn cael ei hystyried.

### 4.16 P-04-678 Offer i Helpu Pobl Eiddil

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.17 P-04 658 Derwen Brimmon

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a'r deisebwr. O ystyried yr ymateb cadarnhaol gan Ysgrifennydd y Cabinet newydd a'r sicrwydd blaenorol a roddwyd o ran amddiffyn Derwen Brimmon, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.18 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chytunwyd y dylid pwyso ar CBAC am ymateb i geisiadau blaenorol am wybodaeth. Wrth wneud hynny, roedd Aelodau hefyd yn dymuno mynegi eu siom ynghylch y diffyg ymateb gan CBAC i ohebiaeth flaenorol.

### 4.19 P-04-655 Mynnu ein Hawliau i'r Gymraeg yn y Sector Breifat

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Prif Weinidog, Comisiynydd y Gymraeg a chyn-Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. O ystyried yr holl ymatebion a gafwyd, a'r argymhelliad yn adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 4.20 P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy’n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd a chytunwyd y dylid cau’r ddeiseb.  Wrth wneud hynny, cytunwyd hefyd y dylid ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn iddynt ystyried y materion a godwyd wrth drafod y gyllideb nesaf.

### 4.21 P-04-677 Mynediad Cyfartal i’r Iaith Gymraeg

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn iddi roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor unwaith y bydd y Ganolfan Genedlaethol newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion a swyddogion y Llywodraeth wedi cwblhau’r gwaith o drafod materion ynghylch darpariaeth a ffioedd.

### 4.22 P-04-656 Sefydlu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Nghymru

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog a chytunwyd y dylid cau’r ddeiseb.

### 4.23 P-04-661 Gwahardd Defnydd Ar-lein a Phleidleisio Electronig gan Aelodau Cynulliad yn Siambr y Senedd

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Llywydd blaenorol a chytunwyd y dylid cau’r ddeiseb.

### 4.24 P-04-674 Dyfed, Dim Diolch

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, a chytunodd i gadw’r ddeiseb ar agor a’i hystyried ymhellach pan fydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn cyflwyno cynigion ar gyfer strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol.

### 4.25 P-04-684 Galwn am Ddeddfwriaeth Cynllunio Well a Mwy Effeithiol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ac am Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd Newydd

Bu’r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Yng ngoleuni’r ymateb hwnnw ac, yn arbennig, y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn y maes hwn yn ddiweddar, cytunwyd y dylid cau’r ddeiseb.